Cyngor Rheolaeth Cymru

Cyfraniad unigryw

Adolygiad 2007-2008

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council

Yn arwain Cymru tuag at ragoriaeth mewn arweinyddiaeth a rheolaeth

© Cyngor Rheolaeth Cymru 2008

Caniateir atgynhyrchu adrannau o'r ddogfen hon cyn belled â bod cydnabyddiaeth lawn yn cael ei rhoi i'r cyhoeddwr, sef Cyngor Rheolaeth Cymru.

Cyngor Rheolaeth Cymru
Blwch Post 61
25, Ffordd yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd CF11 1AA

Ffôn: 029 2022 4114
Ffacs: 029 2022 4113

EIN GWELEDIGAETH A'N CENHADAETH

Corff y mae cyflogwyr yn ei arwain yw Cyngor Rheolaeth Cymru, ac ariennir ef gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i hybu datblygiad rheolwyr ac arweinwyr yng Nghymru.

Ein cenhadaeth yw

Arwain Cymru tuag at ragoriaeth mewn arweinyddiaeth a rheolaeth.

Ein gweledigaeth yw

Gwlad lle y mae arweinwyr a rheolwyr ym mhob sector yn ddigon uchelgeisiol, ac yn ddigon galluog, i greu a chynnal busnesau a sefydliadau sydd ymhlith y gorau yn y DU.

Ein nod yw

Ysbrydoli, cymell ac ysgogi newid yn y ddirnadaeth ynglŷn â chyfleoedd datblygu rheolwyr ac arweinwyr, ac yn y modd o'u darparu, y nifer sy'n manteisio arnynt a nawdd ar eu cyfer yng Nghymru.

trwy

- argyhoeddi pob rheolwr o'r manteision a ddaw yn sgil datblygu eu sgiliau a'u galluoedd
- ymchwilio'n drylwyr i nodi gwir anghenion datblygu rheolwyr yng Nghymru
- gwneud yn siŵr bod rheolwyr yn gallu sicrhau hyfforddiant a datblygiad hyblyg, o safon uchel
- rhannu arfer gorau rheolwyr y DU a rheolwyr rhyngwladol â holl fusnesau Cymru
- mesur cynnydd o'i gymharu â meincnodau credadwy.

I gael rhagor o wybodaeth am waith Cyngor Rheolaeth Cymru, ewch i'n gwefan www.walesmanagementcouncil.org.uk

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CYFRANIAD UNIGRYW

Andrew Wilkinson - Cadeirydd

Yn fy ngyrfa, fel cadeirydd Cyngor Rheolaeth Cymru, cadeirydd Prifysgol Casnewydd, cadeirydd Asiantaeth Menter Casnewydd a Gwent, fel cyn gadeirydd Gyrfa Cymru Gwent, ac fel banciwr â HSBC, mae'n fraint i mi fy mod wedi ymwneud â phum maes sy'n holl bwysig i economi Cymru: rheolaeth ac arweinyddiaeth, addysg uwch, cefnogaeth busnes, datblygu gyrfaoedd, a chyllid.

Wrth i mi ysgrifennu hwn, ym mis Ebrill 2008, mae pob un o'r pum maes yn wynebu heriau heb eu tebyg o'r blaen yn sgil blaenoriaethau ariannu a pholisïau newydd, cystadleuaeth genedlaethol a rhyngwladol, cydweithredu, pwrpas strategol, a therfysgoedd ariannol ledled y byd.

Ar ben hyn oll, fel petai hynny ddim yn ddigon, rydym ni'n wynebu geiriau llym yr Arglwydd Sandy Leitch yn ei adroddiad terfynol, a gyhoeddwyd ddiwedd 2006:

"Without increased skills, we would condemn ourselves to a lingering decline in competitiveness, diminishing economic growth and a bleaker future for all."

Roedd ei ddadl yn un rymus, sef nad yw'n opsiwn bodloni ar y targedau datblygu sgiliau rydym eisoes wedi'u gosod, gan mai'r cyfan y bydd hynny'n ei wneud fydd ein harwain i golli mwy o dir i weddill y byd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ddiweddar wedi cyhoeddi ei hymateb i argymhellion yr Arglwydd Leitch yn ei hadroddiad treiddgar *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*. Mae hwn yn derbyn her yr Arglwydd Leitch, ac yn gwneud rhai argymhellion pellgyrhaeddol ar gyfer datblygu sgiliau yng Nghymru, gan gynnwys pwysigrwydd datblygu sgiliau arwain a rheoli fel un o'r gyrwyr allweddol ar gyfer twf economaidd, a chan fod, yng ngeiriau'r Arglwydd Leitch

"Good leaders and managers invest in the development of their workforce, thus pulling through the skills agenda."

Ar bob tudalen o'r adroddiad hwn rydym wedi dwyn sylw at y paragraffau allweddol yn *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth a rheolaeth. Hefyd, mae Christopher Ward, ein Prif Weithredwr, wedi defnyddio'i adolygiad o'r flwyddyn ddiwethaf i archwilio'n fwy trylwyr rhai o'r cwestiynau a'r heriau allweddol rydym yn eu hwynebu, fel y Cyngor ac fel cenedl, o ran yr agenda datblygu sgiliau yn gyffredinol, ac o ran arweinyddiaeth a rheolaeth yn benodol.

Petai pethau'n syml, mae'n siŵr y byddem ni wedi dod o hyd i'r atebion amser maith yn ôl, ond nid yw pethau'n syml.

Mae yna flaenoriaethau sy'n gwrthdaro ac sy'n gyflenwol, gan ddibynnu ar eich safbwynt, eich sector, eich adnoddau, eich dyhead personol, a'ch amcanion corfforaethol.

"Os na fyddwn yn gwella sgiliau'r gweithlu a'n sgiliau arwain a rheoli, bydd busnesau yng Nghymru, yn raddol, yn ei chael yn anodd cystadlu. Bydd twf economaidd Cymru'n arafu. Bydd rhai gyda sgiliau isel yn cael eu hymylu'n gynyddol gan y farchnad lafur a daw cymunedau yn fwyfwy anghyfartal. Ni all Cymru, na'r DU yn gyffredinol, fforddio â bod yn fodlon â'r *status quo*."

Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, t. 5

"Byddwn yn datblygu ffyrdd newydd o helpu busnesau Cymru i ddatblygu eu harweinwyr a'u rheolwyr, drwy ddefnyddio'r cyfle a ddarperir gan Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd."

Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, t. 20

"Dylai unigolion a chyflogwyr gyfrannu at gost dysgu lle maen nhw'n elwa fwyaf ohono."

Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, t. 6

Nid yw'n rhwydd dod o hyd i lwybr eglur trwy'r ddrysfa hon o opsiynau, a dyma pam, efallai, na all llywodraethau o unrhyw liw, mewn unrhyw wlad, byth fodloni pawb bob amser. Ond, fel sy'n digwydd mor aml, mae bod â golwg eglur o'r pethau sy'n wirioneddol bwysig yn darparu'r ffocws hanfodol sy'n arwain at wefr darganfod ffyrdd newydd ymlaen.

Fel cadeirydd Cyngor Rheolaeth Cymru, fe fyddech chi'n disgwyl i mi roi pwyslais mawr ar bwysigrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth dda, ond rwy'n gwneud hyn ag argyhoeddiad ac angerdd.

Fodd bynnag, er fy mod yn gwbl ymwybodol ei bod yn wireb amlwg dweud "bod angen rheolwyr da arnom i greu busnesau da", mae'n anodd dod o hyd i dystiolaeth i brofi hyn.

Rwyf o'r farn mai un o gryfderau mawr Cyngor Rheolaeth Cymru, boed fel bwrdd gwirfoddol o ryw ugain o gyfarwyddwyr anweithredol, neu fel tîm gweithredol, yw ein bod yn deall yr anhawster hwn. Gallwn gynnig awgrymiadau, syniadau a datrysiadau sy'n adlewyrchu'r cymhlethdod hwn o flaenoriaethau, cyfleoedd a phwrpas, a dod o hyd i ffordd trwyddyn nhw ac, yn sgil hyn, cyfrannu'n uniongyrchol ac yn unigryw at helpu i ddatblygu arweinwyr a rheolwyr yng Nghymru.



Chwaraewyr allweddol sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth a rheolaeth yng Nghymru

AI CWESTIYNAU YW'R ATEB?

Christopher Ward – Prif Weithredwr

Rydym wrth ein bodd, ac wedi'n calonogi, bod dogfen ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru – strategaeth sgiliau a chyflogaeth* yn rhoi pwyslais sylweddol ar bwysigrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth dda.

Rydym wedi dwyn sylw at baragraffau allweddol ar bob tudalen yn yr adolygiad hwn, yn y colofnau ar y chwith a'r dde, fel cefndir i'r cyfraniad y mae Cyngor Rheolaeth Cymru wedi'i wneud, ac y bydd yn parhau i'w wneud, at yr agenda holl bwysig hon, ac i ddilysu'r cyfraniad hwn.

Mae Cyngor Rheolaeth Cymru'n cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i hybu pwysigrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth dda ledled Cymru, ac rydym yn gwneud hyn â brwdfrydedd, argyhoeddiad ac egni sy'n rhoi camargraff o'n maint a'n cyllid bach.

Mae aelodau a staff y Cyngor yn cydnabod eu cyfrifoldeb unigryw am redeg yr unig sefydliad yng Nghymru â'r genhadaeth hon a ariennir yn gyhoeddus, a'r disgwyl yn y genhadaeth y byddwn ni oll yn "arwain Cymru tuag at ragoriaeth mewn arweinyddiaeth a rheolaeth".

Daw'r rôl arweinyddiaeth hon ar sawl ffurf, a byddaf yn disgrifio rhai o'n gweithgareddau uniongyrchol yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Byddaf hefyd yn amlinellu sut y bu i ni ddefnyddio'r arian a ddarparwyd ar ein cyfer. Ond un o'r agweddau llai gweladwy o'n gwaith yw'r "arweinyddiaeth meddwl" rydym yn ei chynnig ar ystod eang o faterion sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth a rheolaeth.

Gwnawn hyn trwy ein hadroddiadau, ein cyflwyniadau, ein hymgysylltiad â sefydliadau o bob math, a'n cyfraniad at ddatblygiad polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Dros y blynyddoedd, rydym wedi meithrin perthnasoedd cryf a chynhyrchiol iawn â'n hariannwr uniongyrchol, sef Adran yr Economi a Thrafnidiaeth (AETh), ac â'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS), ac rydym wedi mynd ati i weithio â nhw ar faterion sy'n ymwneud â datblygu arweinwyr a rheolwyr.

"Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn greiddiol i lwyddiant tymor hir unrhyw fusnes ac i'n dyheadau am ddatblygu economi Cymru yn y tymor hir."

Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, t. 19

"Bwriadwn gryfhau ein ffocws ar arweinyddiaeth a rheolaeth ac ar ein hymrwymiad ehangach i'r safon Buddsoddwyr mewn Pobl."

Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, t. 17

"Bydd lefel y buddsoddiad cyhoeddus yn ystyried ymrwymiad y cwmni i weithio tuag at ennill safonau cydnabyddedig fel Buddsoddwr mewn Pobl, y Model Arweinyddiaeth a Rheolaeth, ac Addewid Sgiliau Sylfaenol y Cyflogwr."

Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, t. 19

"Mae angen i'n rhaglenni datblygu sgiliau i fusnesau hefyd daro cydbwysedd rhwng helpu i wella cynhyrchedd a chystadleurwydd cwmnïau yng Nghymru, ac arfogi unigolion â sgiliau a chymwysterau y medrant eu trosglwyddo o fewn y farchnad lafur."

Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, t. 18

Adlewyrchir llawer o'r argymhellion sydd yn ein hadroddiad strategol, *Gweithredu ar gyfer Twf*, a gyhoeddwyd fis Mehefin 2007, yn argymhellion Is-bwyllgor y Cabinet ar Swyddi a Sgiliau, ac mae APADGOS yn eu hystyried wrth iddyn nhw ddatblygu strategaeth a chynllun gweithredu newydd ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth i ddatblygu'r argymhellion eang yn *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*.

Ond fel mae ein Cadeirydd, Andrew Wilkinson, yn dweud yn ei erthygl flaenorol, nid yw pethau'n syml. Mae yna lawer o gwestiynau, sef cwestiynau sy'n gwrth-ddweud ei gilydd yn aml, y mae'n rhaid i ni geisio'u hateb wrth i ni ddatblygu strategaeth ar gyfer datblygu sgiliau arwain a rheoli a fydd yn gweithio o ddifrif i Gymru.

Mae yna fwy o ficrofusnesau a busnesau bach yn y proffil diwydiannol yng Nghymru nag unrhyw fusnesau eraill, fel y mae'r siart hwn yn dangos yn ddramatig:



A oes perygl bod ffocws y llywodraeth ar gwmnïau ar eu twf a sectorau ar eu twf yn cefnogi'r "gorau yn y dosbarth", ar draul y rheiny sydd â gwir botensial, er nad yw'r potensial hwnnw mor amlwg o bosibl?

A fydd microfusnesau a busnesau bach yng Nghymru'n ennill neu'n derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw?

Ai swyddi sy'n creu sgiliau ynteu sgiliau sy'n creu swyddi? Ydy'r pwyslais ar gymwysterau y gellir eu trosglwyddo ar gyfer unigolion yn mynd yn groes i anghenion sefydliadau i ddatblygu sgiliau eu gweithlu sy'n berthnasol i'w busnes?

Os bwriedir gwneud cymwysterau'n fwy "addas i'w diben", diben pwy ddaw yn gyntaf, yr unigolyn ynteu'r sefydliad?

Ydy cymwysterau'n wirioneddol gynrychioli sgiliau ac, os nad ydyn nhw, sut ydych chi'n mesur sgiliau, yn enwedig y sgiliau "meddal" sydd wrth wraidd pob perthynas weithio?

Beth yw gwir ystyr "dysgu y mae galw'n ei arwain" mewn cenedl o 190,000 o fusnesau, bob un ohonyn nhw â'i wahanol anghenion a dyheadau?

Ai'r farchnad ddylai yrru'r strategaeth sgiliau yng Nghymru ynteu'r llywodraeth?

Ydyn ni'n cefnogi'r rheiny sy'n dymuno dysgu, ynteu'r rheiny a ddylai ddysgu?

Ble mae'r "farchnad yn methu" o ran arweinyddiaeth a rheolaeth? Pa un sydd i'w beio fwyaf, ochr y cyflenwad ynteu ochr y galw?

Yn ôl Leitch, mae gan 41% o reolwyr yn y DU sgiliau ar Lefel 2 neu is, felly pam ein bod ni'n disgrifio sgiliau arwain a rheoli fel sgiliau "lefel uwch", gan gysylltu datblygiad ag Addysg Uwch?

Pwy sydd yn y sefyllfa orau i ddatblygu sgiliau ein rheolwyr?

"Bwriadwn gynnig mwy o gefnogaeth i gynorthwyo cwmnïau i roi hwb i berfformiad eu harweinwyr a'u rheolwyr."

Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: crynodeb i gyflogwyr

"Byddwn yn cynorthwyo cyflogwyr i ddatblygu eu busnesau yn eu cyfanrwydd, gan fynd i'r afael â sgiliau ochr yn ochr â materion eraill yn ymwneud â busnes megis rheoli, buddsoddiad cyfalaf, technoleg newydd, arloesedd a chynllunio."

Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: crynodeb i gyflogwyr

"Ein huchelgais yw gweld busnesau'n llwyddo fel rhan o economi Gymreig sy'n gref a llawn menter gyda chyflogaeth lawn a swyddi o safon."

Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: crynodeb i gyflogwyr

"Bwriadwn gynyddu cyfran yr arian a ddyrannwn ar gyfer sgiliau busnes-benodol. Wrth wneud hyn, y busnesau canlynol fydd yn cael y flaenoriaeth o ran cymorth ariannol:

- **Busnesau mewn sectorau sy'n bwysig i ddyfodol economi Cymru;**
- **Busnesau sy'n dilyn arfer gorau cydnabyddedig o ran datblygu pobl, er enghraifft, safon Buddsoddwyr mewn Pobl; a**
- **Busnesau sy'n buddsoddi mewn sgiliau arwain a rheoli sy'n hanfodol i lwyddiant hirdymor economi Cymru."**

Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: crynodeb i gyflogwyr

Ym marchnad datblygu arweinwyr a rheolwyr, beth sy'n gweithio o ddifrif, a pham?

Yn yr archfarchnad hyfforddiant, pa eil sydd fwyaf tebygol o ddenu cwsmeriaid, yr un â'r arwydd "Sgiliau rheoli pobl" ynteu'r un â'r arwydd "Gwneud mwy o arian"?

Rhai cwestiynau yn unig yw'r rhain yr ydym yn gobeithio fydd yn ysgogi'r ddadl ehangach ynglŷn â sut, ble, a pham y dylem ni ddatblygu sgiliau ein harweinwyr a'n rheolwyr, sy'n rhan allweddol o'n rôl.

Rydym hefyd yn neilltuo amser i ddatblygu'r "achos busnes" dros ddatblygiad arweinwyr a rheolwyr, er mwyn darparu'r dadleuon a fydd yn newid calonnau a meddyliau'r rheiny sy'n ystyried bod arweinyddiaeth a rheolaeth naill ai'n amherthnasol, neu'n rhywbeth moethus, drud.

Bu ein hymgysylltiad â'r ystod ehangaf o sefydliadau a chyfryngwyr mor gryf ag erioed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys, SEMTA; Sgiliau Asedau; Sgiliau Adeiladu; SkillsActive; Sefydliad Bevan; Dŵr Cymru; Fforwm Electroneg Cymru; Menter Cymru; Busnes mewn Ffocws, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd; Prifysgol Morgannwg; Age Concern Cymru; yr Eglwys yng Nghymru; Fforwm; RhNgCC; City and Guilds; ILM; CMI; CIPD; IOD; CIM; Canolfan Ansawdd Cymru; Coleg Gwent; Coleg Morgannwg; Coleg Ystrad Mynach; Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau; Age Concern; Canolfan Safonau Rheoli; Northern Leadership Academy; SW Leadership Academy; a'r American Society for Training and Development (ASTD).

Yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'n casgliad blynyddol a hynod boblogaidd o syniadau, Rheolaeth –Meddyliwch Amdani, a'r adroddiad strategol, *Gweithredu ar gyfer Twf*, rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad o bwys, wedi'u seilio ar y trafodaethau mewn grwpiau gwaith ar bob pwnc: *Gweithwyr Hŷn yng Nghymru – cyfraniad, ymwneud, rheolaeth* a *Cynghorwyr Dibynadwy yng Nghymru – pwrpas, arfer gorau, cyfeiriadau newydd.*

Ar y cyfan, bu lefelau ein gweithgarwch mor uchel â lefelau'r flwyddyn flaenorol:

Siart Gweithgareddau

	2007 – 2008 : 12 mis	
	Cyfanswm	*Cyfartaledd y mis*
Cyflwyniadau	29	3
Cyfarfodydd pwyllgor	125	11
Cyfarfodydd unigol	274	23
Cynadleddau/rhwydweithio	123	10
Grwpiau gwaith	3	
Cyhoeddiadau	5	
e-fwletin	12	1
Erthyglau'r cyfryngau	24	2
Fforwm Arweinwyr	2	
Cyfarfodydd y cyngor	4	
Cyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol	6	
Diwrnod Datblygu	1	

Mae hyn, yn ogystal â bod yn synhwyrgall wrth ddefnyddio'r £320,000 sy'n ein hariannu, yn golygu ein bod yn parhau i drosgyflawni.



"Mae'n rhaid i raglenni sgiliau fod yn fwy integredig â chymorth busnes, er mwyn gwneud i'n gwasanaethau gydweithio a'u gwneud yn haws eu deall ac yn fwy hwylus."

Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: crynodeb i gyflogwyr

"Rhaid i ni gael cydbwysedd rhwng sgiliau busnes-benodol sy'n cynorthwyo cwmnïau unigol i wella eu cynhyrchedd, ac arfogi unigolion gyda sgiliau a chymwysterau y gellir eu 'trosglwyddo', a fydd yn rhoi cyfleoedd iddynt yn y farchnad lafur."

Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: crynodeb i gyflogwyr

"Dim ond darparwyr dysgu o safon ddylai gael arian cyhoeddus, er mwyn i gyflogwyr elwa ar wasanaethau credadwy o safon."

Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: crynodeb i gyflogwyr

"Arhoswn yn ymrwymedig i werth y safon BmP a byddwn yn parhau i'w hyrwyddo i sefydliadau ledled Cymru."

Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, t. 19

"Mae angen inni ailfeddwl am ddatblygiad rheolwyr ac arweinwyr fel campfa – cyfarpar proffesiynol gyda help proffesiynol i dynhau a chryfhau'r darnau llipa. Dylai fod gan bob busnes yng Nghymru rywbeth sy'n gyfystyr â hyfforddwr personol."

Gweithredu ar gyfer Twf

"Yn gyffredinol, disgwyliwn ddarparu mwy o arian ar gyfer sgiliau achrededig a gydnabyddir ar draws y farchnad."

Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: crynodeb i gyflogwyr

Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, rydym wedi cadeirio'r consortiwm, a bod yn brif ariannwr cynhadledd Arwain Ymlaen, bellach yn ei thrydedd blwyddyn, a gynhaliwyd yn Stadiwm Liberty, Abertawe ym mis Tachwedd. David Magliano, y Pennaeth Marchnata ar gyfer y cynnig am y Gemau Olympaidd yn Llundain yn 2012, a Richard Scase, y daroganwr busnes blaenllaw, oedd y siaradwyr cyweirnod. Bu'r dosbarthiadau meistr, a oedd wrth ganol y gynhadledd, yn edrych ar faterion yn ymwneud ag arweinyddiaeth sy'n gysylltiedig â thechnoleg, newid yn yr hinsawdd, datblygu sgiliau, cyfleoedd byd-eang, ac amrywiaeth. Mynychodd bron i 200 o bobl y gynhadledd; 55% o'r sector preifat, a 45% o'r sector cyhoeddus.

Hefyd, ym mis Tachwedd, buom yn ymwneud â chreu a chyflenwi Goleuo'r Gogledd….Amser i Ddisgleirio, sef y gynhadledd gyntaf o'i bath a gynhaliwyd yn Llandudno. Bwriad hon oedd dwyn pobl ynghyd, creu perthnasoedd busnes newydd ac ysgogi meddwl newydd ynglŷn â sut gall unigolion, busnesau a sefydliadau yng Ngogledd Cymru ddod yn berfformwyr mwy cystadleuol mewn byd sy'n cyflym newid. Daeth mwy na 300 o bobl i'r gynhadledd, gyda brwdfrydedd sy'n gwarantu y'i cynhelir eto yn 2008, ac am sawl blwyddyn i ddod.

Fis Chwefror, buom yn ymwneud am y bedwaredd flwyddyn yn olynol fel prif ariannwr Gwobrau Arwain Cymru, ac fel noddwr y categori BBaChau a chadeirydd y panel a oedd yn beirniadu categori'r sector cyhoeddus. Ceir cynnydd yn nifer yr enwebiadau o un flwyddyn i'r nesaf, ac felly hefyd yn eu hansawdd. Cafodd pob aelod o'r consortiwm hi'n anoddach nag erioed i ddethol y goreuon ym mhob categori i dderbyn y gwobrau, o blith carfan o bobl anhygoel y mae eu harweinyddiaeth, yng ngeiriau arwyddair eleni, yn gwneud gwahaniaeth go iawn yng Nghymru.

Gan edrych ymlaen at 2008 – 2009, fe fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n adolygu'r modd yr ydym yn cael ein hariannu a chan bwy, a byddwn yn gweld galw mwyfwy ar y defnydd o'n holl adnoddau: i ymgysylltu â mwy o bobl, yn enwedig â'r Cynghorau Sgiliau Sector; i gefnogi datblygiad arweinwyr a rheolwyr ledled Cymru; ac i helpu i ddarparu atebion i'r cwestiynau sydd o wir bwys.





1. *Seremoni cinio Gwobrau Arwain Cymru*
2. *Gweithdy yng Nghynhadledd Goleuo'r Gogledd*
3. *Christopher Ward yng Nghynhadledd Arwain Ymlaen*
4. *Gweithdy yng Nghynhadledd Goleuo'r Gogledd*
5. *David Magliano, Pwyllgor Cynnig y Gemau Olympaidd, yng Nghynhadledd Arwain Ymlaen*
6. *Dosbarth meistr Jean Gomes yng Nghynhadledd Arwain Ymlaen*
7. *Siân Rees a Gwyneth Stroud, Cyngor Rheolaeth Cymru, yng Nghynhadledd Arwain Ymlaen*
8. *Grŵp Llywio Cynhadledd Goleuo'r Gogledd*
9. *Henry Engelhardt, The Admiral Group, yn siarad yn seremoni Gwobrau Arwain Cymru*
10. *Bill Beese, SZ Gears Cyf, enillydd Gwobr Arwain Cymru, a Christopher Ward*
11. *Gwesteion yn dod at ei gilydd yng nghyntedd gwesty'r Hilton, Caerdydd, ar gyfer Gwobrau Arwain Cymru*
12. *Richard Scace yng Nghynhadledd Arwain Ymlaen*

"Mae'n rhaid i gyflogwyr gael dylanwad gwirioneddol ar y modd y darperir y rhaglenni sgiliau ac ar eu cynnwys, er mwyn iddynt fod yn fwy ymatebol, hyblyg a chydnaws ag anghenion cyflogwyr."

Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: crynodeb i gyflogwyr

"Credwn y dylid gwario cyfran fwy o'r arian sydd ar gael ar gyfer addysg oedolion ar gefnogi sgiliau a hyfforddiant sy'n diwallu anghenion busnes."

Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: crynodeb i gyflogwyr

"Dylai Llywodraeth y Cynulliad dargedu ei harian lle ceir y mwyaf o angen amdano, gan ganolbwyntio ar sectorau a busnesau blaenoriaeth."

Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: crynodeb i gyflogwyr

AELODAU A STAFF Y CYNGOR

Aelodau'r Cyngor

Aelodau fu'n gwasanaethu trwy gydol 2007 – 2008

Andrew Wilkinson (Cadeirydd)	Cadeirydd, Prifysgol Cymru, Casnewydd
Laurence James (Ysgrifennydd)	LJ Law
Roger Evans	Schaeffler (UK) Cyf
David Finch	Coleg Ystrad Mynach
Peter Hurley	orangebox
Gary Mawer	Utility Partnership Cyf
Eileen Murphy	Cynghorydd i'r Sector Gwirfoddol
Jacqueline Royall	Ymgynghorydd
Dr Chris Young	Fforwm Electroneg Cymru
Rachel Clacher	Moneypenny
Julie Cook	TUC Cymru
Yr Athro Andrew Henley	Prifysgol Cymru, Abertawe
Allan Meek	Smoke Control Services Group
Alistair Neill	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Allison Williams	Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru
Dr Neil Wooding	Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru

Aelodau a ymunodd â'r Cyngor yn ystod 2007 – 2008

Robert Preece	Broomfield and Alexander

Aelodau a adawodd y Cyngor yn ystod 2007 – 2008

John Bath	Brecon Pharmaceuticals
John Moore	Thomas Carroll Group
Debbie Williams	confused.com
Sheila Drury	Cyd-banel Ymgynghorol Sgiliau

Sylwedyddion

Rob Halford	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Ian Rees	Riverside Consultancies

Staff

Christopher Ward	Prif Weithredwr christopher.ward@crc-wmc.org.uk
Gwyneth Stroud	Gweithredwr Marchnata gwyneth.stroud@crc-wmc.org.uk
Siân Rees	Gweithredwr De Cymru sian.rees@crc-wmc.org.uk
Steve Donnelly	Gweithredwr Gogledd Cymru steve.donnelly@crc-wmc.org.uk